



Casglu Data Chwarterol Galwedigaethol

Canllaw i'r Broses Cyflwyno Data

Ebrill 2019

Tabl Cynnwys

1. Canllawiau casglu data cyffredinol 3

Cyflwyniad 3

Diweddariadau i fformatau a chanllawiau 3

Sut i gyflwyno'ch data 3

Data wedi'i lanlwytho 3

Diwygiadau i ddata 4

Sut y bydd eich data yn cael ei ddefnyddio 4

Os na dderbyniwn eich data 4

2. Casglu data galwedigaethol 5

Pryd mae'r data'n cael ei gasglu..... 5

Pa ddata sy'n cael ei gasglu..... 5

Sut mae'r data'n cael ei gasglu..... 5

3. Cwblhau'r ffeil templed: Ffurflen Math 2 6

Canllawiau cwblhau cyffredinol..... 6

Ffeil enghreifftiol..... 7

Manyleb maes..... 8

4. Cwblhau'r ffeil templed: Ffurflen Math 1 9

Canllawiau cwblhau cyffredinol..... 9

Prosesu data..... 9

Manyleb maes - Ffeil y ganolfan..... 10

Manyleb maes - Ffeil ddata..... 11

5. Diffiniadau data..... 12

Ardystiadau..... 12

Cofrestriadau..... 12

Chwarteri..... 12

Rhanbarthau daearyddol..... 12

6. Cysylltiadau..... 13

1. Canllawiau casglu data cyffredinol

Cyflwyniad

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio ac achredu fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ddarparu data arholiadau ar gyfer cymwysterau rheoledig.

Diweddariadau i fformatau a chanllawiau

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar ddogfen *Vocational Quarterly Data Collection*. Bydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd; bydd unrhyw newidiadau i'r weithdrefn yn cael eu hymgorffori yn y canllaw hwn.

Sut i gyflwyno'ch data

Dylid cyflwyno'ch data i ni ar ffurf CSV trwy'r pwyntiau cyflwyno ar borth QiW. Dylech gyfeirio at y ddogfen ganllaw ar wahân i'ch helpu i gyflwyno'ch ffeiliau i ni. Peidiwch ag anfon eich data trwy e-bost i unrhyw gyfeiriad e-bost Cymwysterau Cymru.

Data wedi'i lanlwytho

Ar ôl i ffeiliau gael eu lanlwytho'n llwyddiannus, bydd y data'n cael ei ddilysu yn erbyn set o reolau dilysu. Manylir ar y rhain yn yr adrannau isod. Os yw'r dilysiad yn llwyddiannus, trosglwyddir y data i'n systemau yn awtomatig. Os yw'r ffeil yn aflwyddiannus ar unrhyw gam o'r dilysiad, byddwch yn derbyn neges gwall gyda manylion y methiant dilysu. Mewn achos o'r fath, dylech gywiro eich ffeil a'i hailgyflwyno.

Diwygiadau i ddata

Ni fydd staff Cymwysterau Cymru yn newid data ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Os dewch o hyd i wall neu hepgoriad ar ôl i chi lanlwytho'n llwyddiannus, byddwch yn gallu ailgyflwyno ffeil wedi'i chywiro trwy'r porth heb ein hysbysu (ar yr amod ei bod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno). Os yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno wedi mynd heibio, rhowch wybod i ni am y gwall neu'r hepgoriad trwy e-bostio datapoint@qualificationswales.org <<mailto:datapoint@Qualificationswales.org>>.

Sut y bydd eich data yn cael ei ddefnyddio

Defnyddir y data hwn i ymgymryd â'n gweithgareddau rheoleiddio ac i gynhyrchu ystadegau a gyhoeddir yn unol â Chod Ymarfer Ystadegau USKA. Defnyddir yr ystadegau a ryddheir gan Cymwysterau Cymru i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac i wella hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac asesiadau rheoledig. Gellir cyrchu ystadegau Cymwysterau Cymru trwy ein gwefan.

Os na dderbyniwn eich data

Mae dychwelyd eich gwybodaeth i Cymwysterau Cymru yn orfodol. Mae methu â chyflenwi data mewn modd amserol a chywir yn torri Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru (Amod B4: Rhybudd i ddarparu gwybodaeth i Cymwysterau Cymru) a gall arwain at gamau rheoleiddio.

Os nad oes gennych unrhyw ddata i'w gyflwyno ar gyfer y chwarter, mae'n ofynnol i chi gyflwyno datganiad "No data to submit" trwy'r pwynt cyflwyno. Gallwch gyflwyno'r datganiad hwn trwy ddewis y blwch "No data to submit for this collection" a chlicio "Submit". **Peidiwch** â thicio'r blwch hwn os ydych chi'n cyflwyno ffeil. Bydd ticio'r blwch hwn wrth lanlwytho ffeil hefyd yn achosi i'r ffeil gael ei dileu a bydd Cymwysterau Cymru yn cael eu hysbysu nad oes gennych unrhyw ddata i'w gyflwyno. Os bydd datganiad "No data to submit" yn cael ei wneud trwy gamgymeriad, ailgyflwynwch eich ffeil(iau) data trwy'r pwynt cyflwyno, gan sicrhau nad yw'r blwch yn cael ei dicio.

2. Casglu data galwedigaethol

Pryd mae'r data'n cael ei gyflwyno?

Cesglir data bob chwarter, ym mis Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref. Mae'r ffenestr casglu yn cychwyn ar y diwrnod yn dilyn diwedd y chwarter. Mae hyn yn golygu bod yr amser rhwng y cyfnod dan sylw a'r dyddiad cyhoeddi yn cael ei gadw i'r lleiafswm.

Pa ddata sy'n cael ei gasglu?

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio ac achredu fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau dyfarnu ddarparu data cyfanredol ar nifer y tystysgrifau llawn a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol rheoledig (h.y. pob cymhwyster ac eithrio TGAU, TAG a Dyfarniadau Estyniad Uwch) yng Nghymru. Mae [Atodiad A](#) yn darparu mwy o wybodaeth ar sut rydym yn diffinio tystysgrif a ddyfarnwyd yng Nghymru ar gyfer y casgliad hwn.

Mae rhifau ardystio yn orfodol fel rhan o'r casgliad data hwn. Mae hyn er mwyn i ni allu monitro tueddiadau mewn cymwysterau a chael dealltwriaeth o'r farchnad sgiliau ar lefel gwlad. Defnyddir y data hwn hefyd i lywio ein gweithgareddau rheoleiddio o ddydd i ddydd.

Gofynnir hefyd am nifer y cofrestriadau fesul cymhwyster. Mae hyn yn wirfoddol ar hyn o bryd. Mae'r data hwn yn bwysig i ni fel dangosydd o gyfraddau cyfranogi a chwblhau.

Sut mae'r data'n cael ei gasglu?

Mae Cymwysterau Cymru yn cyflenwi templed i bob corff dyfarnu sy'n rhestru cymwysterau rheoledig y corff. Mae'r templed hwn ar gael i'w lawrlwytho trwy'r porth QiW o ddechrau'r ffenestr gasglu.

Gall cyrff dyfarnu gyflwyno eu data mewn un o ddwy ffordd: naill ai trwy lenwi a dychwelyd y templed a ddarperir (ffurflen ddata Math 2), neu trwy gyflenwi data mewn ffeiliau ar wahân ar lefel y ganolfan (ffurflen ddata Math 1). Gweler yr adrannau isod i gael arweiniad manwl ar gyfer pob proses. Yr unig wahaniaeth rhwng y ffurflenni Math 1 a Math 2 yw'r fformat y cyflwynir y data ynddo - mae'r gofynion data'r un peth ar gyfer y ddau (fel y manylir uchod).

Cyflwynwch **naill ai** ffurflen Math 1 **neu** Math 2 yn unig. Nid yw'n ofynnol i chi gyflwyno'r ddau. Os ydych chi am newid y fformat rydych chi'n cyflwyno'ch data ynddo, gallwch chi wneud hyn ar unrhyw adeg. Nid oes angen i chi ein hysbysu o'r newid.

3. Cwblhau'r ffeil templed: Ffurflen Math 2

Canllawiau cwblhau cyffredinol

- Gellir lawrlwytho'r templed Math 2 trwy'r ddolen "download template" ar y dudalen gyflwyno:
- Dylid ychwanegu data at y celloedd gwag yng ngholofn **Wales Certificates Total** (mae data yng ngholofn **Wales Registrations Total** yn ddewisol). Rhaid llenwi pob cell colofn Certification â gwerth rhifiadol neu ni dderbynnir y ffeil. Os nad oes gennych unrhyw ardystiadau i adrodd, ychwanegwch '0' (sero).
- Dylid darparu data ardystio ar gyfer Cymru ar sail lleoliad yr asesiad, fel yr amlinellir yn [Atodiad A](#).
- Ni fydd yn bosibl ychwanegu cymwysterau newydd at waelod y templed. Os oes unrhyw gymwysterau Rheoledig Eraill yr hoffech eu hychwanegu, cysylltwch â recognitionandapproval@qualificationswales.org <<mailto:recognitionandapproval@qualificationswales.org>> i drefnu bod y cymwysterau hyn yn cael eu hychwanegu at QiW. Ar ôl ychwanegu'r rhain, byddwch yn gallu lawrlwytho templed wedi'i ddiweddarau. Gwiriwch eich templed yn ofalus ac ymhell cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, er mwyn caniatáu amser i ychwanegu unrhyw gymwysterau ychwanegol.
- Oherwydd y gwaith parhaus i drosglwyddo cymwysterau dynodedig wedi'u harchifo i'r rhestr reoledig arall, rydym wedi cynnwys yr holl gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a ddelir ar QiW yn y templedi i sicrhau na cholir unrhyw gymwysterau. Felly, efallai y byddwch yn dod o hyd i rai cymwysterau ar eich templed nad ydyn nhw'n cael eu dyfarnu mwyach. Adroddwch 0 am y cymwysterau hyn.
- Ni ddylid mewnosod colofnau ychwanegol.
- Ni ddylid cynnwys cyfanswm y ffigurau ar ddiwedd y colofnau.
- Ni ddylid cynnwys bylchau na lleoedd arwain na llusgo.
- Rhaid i benawdau'r colofnau gyd-fynd â'r rhai a ddarperir yn y templed.
- Rhaid gwneud cyflwyniadau ar ffurf CSV.
 - **DS** Efallai y bydd rhai fersiynau o Excel yn trosi'r templed yn awtomatig i fformat testun Unicode yn lle CSV. Os ydych chi'n defnyddio Excel, cyn cwblhau'r templed, cadwch gopi gan ddefnyddio "save as" a sicrhau bod y math o ffeil wedi'i osod i CSV (Comma delimited).
- Peidiwch â thicio'r blwch "No data to submit for this collection" "Dim data i'w gyflwyno ar gyfer y casgliad hwn" os ydych chi'n cyflwyno ffeil. Bydd ticio'r blwch yn achosi i'r ffeil gael ei dileu a byddwn yn cael gwybod eich bod yn cyflwyno ffurflen ddim.

Ffeil enghreifftiol – Math 2

AutoSave On VQ template - Saved to SharePoint

File Home Insert Draw Page Layout Formulas Data Review View Add-ins Help Team Tell me what you want to do

Clipboard Font Alignment Number Styles Cells

	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L
1	Awarding Body ID	QAN	QUI	Qualification Title	Level	Type	Certification End Date	Quarter	Wales Registrations Total	Wales Certificates Total	Status	
2	ExampleAB	100/0000/1	C00/0000/1	ExampleAB Level 1 ...	Level 1	VRQ	31/12/2019	2018.3	0	210	Available to learners	
3	ExampleAB	100/0000/2	C00/0000/2	ExampleAB Level 2 ...	Level 2	VRQ	31/12/2019	2018.3	0	164	Available to learners	
4	ExampleAB	100/0000/3	C00/0000/3	ExampleAB Level 2 ...	Level 2	VRQ	31/12/2019	2018.3	0	80	Available to learners	
5	ExampleAB		C00/0000/4	ExampleAB Level 1 ...	Level 1	VRQ	31/12/2019	2018.3	0	180	Available to learners	
6	ExampleAB	100/0000/5	C00/0000/5	ExampleAB Level 1 ...	Level 1	VRQ	31/12/2021	2018.3	0	77	Available to learners	
7	ExampleAB		C00/0000/6	ExampleAB Level 3 ...	Level 3	VRQ	31/12/2019	2018.3	0	23	Available to learners	
8	ExampleAB	100/0000/7	C00/0000/7	ExampleAB Level 2 ...	Level 2	VRQ	31/12/2019	2018.3	0	7	Available to learners	
9	etc.											
10												
11	Can be left blank if qualification does not have a QAN.		New QUI Number - generated by QW, uniquely identifies each qualification.			The values in columns A to H should not be changed		If you have no registrations to report, fill the column with zeros or leave blank.		The values in Status (column K) should not be changed.		
12												
13												
14												
15												
16												

Note: QUI Number = QW Number for approved and designated qualifications.

Manyleb Maes – Math 2

Nid oes angen mewnbynnu data yn y meysydd cysgodol. Mae'r **testun coch** yn cynrychioli newidiadau i'r ffordd y casglwyd y data hwn gan Ofqual.

Field Name	Description	Column	Validation rule	Format	Example	Notes
Awarding Body ID	Acronym of awarding organisation	A	Up to 255 characters, cannot be left blank	text	QW	Values provided by Qualifications Wales should not be altered.
QAN	Qualification Number	B	A valid qualification number or blank	text	601/2977/3	
QUI	QUI Number	C	A valid QUI number of the form Cxx/xxxx/x	text	C00/0318/1	
Qualification Title	Title of qualification	D	Up to 255 characters, cannot be left blank	text	Example AB Level 1 Award in Dance	
Level	Level of qualification	E	A QiW qualification level or one of the following: Level 1, Level 1_2, Level 2, Level 3, Level 4, Level 5, Level 6, Level 7, Level 8, Entry Level, A, F, H, P	text	Level 1	
Type	Type of qualification	F	A QiW qualification type or one of the following: BS, DIP, EL, ESOL, FS, FS NQF, FS, QCF, FSMQ, GCE, GCE AS, GCSE, HL, KS, NVQ, OG, OQ, PL, PROJ, QCF, VRQ, CVET, IVET, ESW, WB	text	QCF	
Certification End Date	The date when the qualification ceases to award certifications	G	Up to 20 characters	date dd/mm/yyyy or mm/dd/yyyy	31/12/2019	
Quarter	The calendar quarter for which data is being collected	H	Must match quarter of current collection	text (yyyy.q)	2018.3	
Wales Registrations Total	Number of registrations received in the quarter	I	Number between 0 and 99999999 or blank	number	50	
Wales Certificates Total	Number of certifications awarded in the quarter	J	Number between 0 and 99999999	number	19/02/1900	
Status	Current status of qualification	K	A QiW qualification status or one of the following: Archived, Effective, Expired, LiveComingSoon, LiveExpired, LivePublished, OtherRegulated, PendingDecision, PendingMoreInfo, PendingRecommendation, Rejected	text	Effective	Should not be altered.

4. Cwblhau'r ffeil templed: Ffurflen Math 1

Canllawiau cwblhau cyffredinol

- Dylech ddarparu dwy ffeil, un yn cynnwys manylion eich canolfannau a'r llall gyda data cofrestru ac ardystio yn ôl canolfan a chymhwyster, yn unol â'r fanyleb maes isod.
- Mae data ardystio yn orfodol. Nid yw data cofrestru yn orfodol ar hyn o bryd
- Ni fyddwn yn derbyn data ar gyfer cymwysterau nad ydynt wedi'u datgan fel rhai rheoledig (h.y. naill ai ar gael i'r cyhoedd ar QiW neu wedi'u cyflwyno ar restr o gymwysterau Rheoledig Eraill). Os ydych wedi cyhoeddi tystysgrifau ar gyfer cymwysterau nad ydynt wedi'u rhestru yn y daenlen Math 2, dylech ddiweddarau eich rhestr o gymwysterau Rheoledig Eraill trwy gysylltu â recognitionandapproval@qualificationswales.org <<mailto:recognitionandapproval@qualificationswales.org>>. Ar ôl ychwanegu'r rhain, byddwch yn gallu lawrlwytho templed Math 2 wedi'i ddiweddarau. Gwiriwch eich templed yn ofalus ac ymhell cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, er mwyn caniatáu amser i ychwanegu unrhyw gymwysterau ychwanegol.
- Os nad ydych yn gwybod y **QUI** am gymhwyster, gallwch ddefnyddio'r templed Math 2 fel chwiliad. Mae canllawiau ar sut i wneud hyn ar ein gwefan.
- Rhaid i benawdau'r colofnau gyd-fynd â'r rhai y manylir arnynt yn y fanyleb maes isod.
- Rhaid gwneud cyflwyniadau ar ffurf CSV.
 - **DS** Efallai y bydd rhai fersiynau o Excel yn trosi'r templed yn awtomatig i fformat testun Unicode yn lle CSV. Os ydych chi'n defnyddio Excel, cyn cwblhau'r templed, cadwch gopi gan ddefnyddio "save as" a sicrhau bod y math o ffeil wedi'i osod i CSV (Comma delimited).
- Peidiwch â thicio'r blwch "No data to submit for this collection" os ydych chi'n cyflwyno ffeiliau. Bydd ticio'r blwch yn achosi i'ch ffeil gael ei dileu a byddwn yn cael gwybod ein bod yn cyflwyno ffurflen ddim. **Manyleb Maes - Ffeil y ganolfan**

Mae'r **testun coch** yn cynrychioli newidiadau i'r ffordd y casglwyd y data hwn gan Ofqual.

Manyleb Maes - Ffeil ddata

Mae'r **testun coch** yn cynrychioli newidiadau i'r ffordd y casglwyd y data hwn gan Ofqual.

5. Diffiniadau data

Ardystiadau

Dylai tystysgrif gynrychioli ymgeisydd sy'n cwblhau cymhwyster, ni waeth a roddir tystysgrif gorfforol ai peidio. Os yw'ch prosesau'n caniatáu i'r tystysgrifau corfforol gael eu cyhoeddi sawl gwaith ar gyfer pob ymgeisydd (er enghraifft, os gwneir gwall gweinyddol) yna dim ond unwaith y dylech gyfrif bod yr ymgeisydd wedi cwblhau'r cymhwyster.

Dylai nifer y tystysgrifau gynrychioli tystysgrifau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod y gofynnwyd amdano yn unig. Os yw tystysgrifau'n destun anghydfod neu dan adolygiad, dylid eu cynnwys yn unig yn y cyfnod y cânt eu rhoi o'r diwedd. Dylai hyn sicrhau cyn lleied o newid â phosibl yn y ffigurau yr adroddir arnynt.

Cofrestriadau

Dylai nifer y cofrestriadau gynrychioli cyfanswm yr ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cymhwyster yn ystod y cyfnod. Y pwynt cofrestru yw pan fydd ymgeisydd yn nodi bwriad i ennill y cymhwyster. Ar gyfer cymwysterau modiwlaid, efallai mai dyma'r pwynt lle mae ymgeisydd yn gofyn am y cymhwyster, ar ôl cwblhau'r unedau cydran.

Chwarteri

Mae Chwarter 1 yn cynnwys Ionawr i Fawrth; mae Chwarter 2 yn cynnwys Ebrill i Fehefin; mae chwarter 3 yn cynnwys Gorffennaf i Fedi; ac mae Chwarter 4 yn cynnwys Hydref i Ragfyr.

6. Cysylltiadau

Ar gyfer pob ymholiad sy'n ymwneud â'r broses casglu data, diwygiadau i ddata a ddarparwyd yn flaenorol, neu i gael arweiniad cyffredinol, cysylltwch â:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd NP10 8AR

Ffôn 01633 373 222

E-bost datapoint@qualificationswales.org
<<mailto:datapoint@Qualificationswales.org>>

Hoffem wneud ein cyhoeddiadau yn hygyrch iawn. Cysylltwch â ni yn statistics@qualificationswales.org <<mailto:statistics@qualificationswales.org>> os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd penodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.qualificationswales.org
<<http://www.qualificationswales.org>>.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom trwy'r cyfeiriad a/neu'r rhif ffôn uchod.

Atodiad A - Canllawiau ar gyfer cwrdd â gofynion casglu data chwarterol galwedigaethol

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ddarparu data cyfanredol ar nifer y tystysgrifau llawn a ddyfernir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol rheoledig yng Nghymru. Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn diffinio yn adran 12 isadran 3 dyfarnu cymhwyster yng Nghymru fel "... ei ddyfarniad i bersonau a asesir mewn perthynas â'r cymhwyster yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru". Oherwydd cymhlethdodau ymarferol defnyddio'r diffiniad hwn, nod y canlynol yw darparu mesur dichonadwy a rhesymol o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yng Nghymru, a all fod yn ddirprwy yn hytrach nag yn union fesur:

At ddibenion casglu data, dylid nodi tystysgrif a ddyfarnwyd yng Nghymru yn seiliedig ar lleoliad y ganolfan asesu neu'r safle y mae'r dysgwr yn mynychu'r asesiad cyfan neu fwyafrif yr asesiad. Yn ymarferol, byddai tystysgrif a ddyfernir yng Nghymru yn cael ei diffinio'n fras fel a ganlyn:

- Mewn llawer o achosion, cynhelir yr asesiad yn yr un ganolfan lle mae'r dysgwr wedi'i gofrestru. Yn yr achos hwn, dylid defnyddio cyfeiriad y ganolfan gofrestru i benderfynu a ddyfarnwyd y dystysgrif yng Nghymru, e.e. trwy ddefnyddio data cod post yr Arolwg Ordnans neu offer chwilio presennol a gedwir ar systemau corff dyfarnu.
- Mewn achosion lle mae'r ganolfan gofrestru mewn gwlad wahanol i'r ganolfan/safle asesu, y lleoliad asesu y dylid ei ddefnyddio i benderfynu a yw'r dysgwr yng Nghymru. Er enghraifft, os yw dysgwr wedi'i gofrestru i ganolfan yn Lloegr at ddibenion gweinyddol (e.e. prif swyddfa darparwr hyfforddiant) ond yn mynychu lleoliad yng Nghymru ar gyfer yr asesiad (e.e. canolfan loeren neu safle hyfforddi), yna mae'r dystysgrif a ddyfarnwyd i'r dysgwr hwnnw yn cael ei dyfarnu yng Nghymru (ac i'r gwrthwyneb). Os nad yw lleoliad yr asesiad yn hysbys (e.e. os yw dysgwr wedi'i gofrestru i ganolfan ond yn sefyll yr asesiad o bell o'i gartref/gweithle), yna dylid defnyddio'r ganolfan gofrestru.
- Mewn achosion lle mae dysgwr o bell wedi'i gofrestru'n uniongyrchol â chorff dyfarnu (h.y. nid oes canolfan), dylid trin y cyfeiriad a gedwir ar systemau corff dyfarnu ar gyfer y dysgwr hwnnw fel lleoliad yr asesiad. Os yw'r cyfeiriad cofrestredig ar gyfer y dysgwr yng Nghymru, yna dylid trin unrhyw dystysgrif a ddyfernir i'r dysgwr hwnnw fel un sydd yng Nghymru.

Credwn fod y canllawiau uchod yn cwmpasu'r mwyafrif o amgylchiadau pan ddyfernir tystysgrif i ddysgwr. Fodd bynnag, os dewch ar draws senario nad yw'n dod o dan y canllaw hwn, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynghylch nodi tystysgrifau a ddyfarnwyd yng Nghymru ar gyfer casglu data VQ, cysylltwch â ni yn datapoint@qualificationswales.org <<mailto:datapoint@qualificationswales.org>>.

Diffiniadau at ddibenion casglu data

Dysgwr

Person sy'n ceisio ennill cymwysterau, neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ennill cymwysterau.

Canolfan

Corff sy'n ymgymryd â darparu asesiad (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu.

Mae'r diffiniadau canlynol at ddibenion y ddogfen canllawiau casglu data hon yn unig:

Tystysgrif

Cydnabyddiaeth ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni cymhwyster. At ddibenion y ddogfen hon, dyma unrhyw ddyfarniad nad yw'n cael ei raddio fel U, yn absennol neu X (yn methu), ni waeth a roddir tystysgrif gorfforol ai peidio.

Canolfan Gofrestru

Canolfan y mae dysgwr wedi'i chofrestru iddi i gynnal asesiad ar gyfer cymhwyster at ddibenion gweinyddol. Yn aml, bydd hyn yr un peth â'r ganolfan asesu, ond nid bob amser.

Canolfan Asesu

Canolfan y mae dysgwr yn ei mynychu lle mae'n cwblhau'r asesiad cyfan neu'r rhan fwyaf ohono ar gyfer cymhwyster. Yn aml bydd hyn yr un peth â'r ganolfan gofrestru ond gall fod yn wahanol mewn achosion lle mae'r dysgwr wedi'i gofrestru i ganolfan weinyddol ganolog ond yn mynychu canolfan wahanol i gwblhau'r asesiad (fel arfer am resymau cyfleustra/mwy lleol).

Safle asesu

Lleoliad y mae dysgwr yn ei fynychu lle mae'n cwblhau'r asesiad cyfan neu'r rhan fwyaf ohono ar gyfer cymhwyster. Mae canolfan asesu yn enghraifft o safle asesu, ond ni fydd pob safle asesu yn ganolfannau. Er enghraifft, byddai lleoliad a logir gan gwmni hyfforddi i ddarparu hyfforddiant ac asesiad o gymhwyster yn safle asesu ond nid o reidrwydd yn ganolfan.